


Diogelwch a chŵn

Gall y berthynas glos rhwng eich plentyn a'ch ci ddod â hapusrwydd a hwyl i fywyd teuluol. Dydyn ni ddim yn disgwyl i'n ci ein hunain gnoi neu frathu, ond gall unrhyw gi gnoi neu frathu os ydyn nhw'n teimlo nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis arall.


Mae plant yn fwy tebygol o gael eu cnoi neu eu brathu gartref, gan gi cyfarwydd. Yn ffodus, gellir osgoi'r rhan fwyaf o frathiadau ac mae goruchwyliaeth glos yn allweddol.

 Mae **ci tawel, hapus** yn llai tebygol o ymateb yn anniogel i fywiogrwydd naturiol plentyn.

- Rhowch ofod diogel i'ch ci fel y gallan nhw fynd yno pan fydd angen amser ar eu pen eu hunain. Ceisiwch gael rheol i adael llonydd iddyn nhw pan fyddan nhw yno.
- Cadwch nhw'n brysur – mae gweithgaredd corfforol a meddyliol yn helpu i gadw eich ci yn hapus.
- Dysgwch eich plentyn i fod yn dawel ac yn garedig gyda'ch ci. Dylech osgoi gweiddi, pryfocio neu anwesu sy'n cyfyngu.

 **Goruchwyliaeth glos** yw'r peth pwysicaf i gadw plant yn ddiogel.

- Gwylwch, gwrandewch ac arhoswch yn agos pan fydd eich plentyn a'ch ci gyda'i gilydd.
- Os yw eich ci neu eich plentyn yn ymddangos yn annhapus, gwahanwch nhw'n bositif ac yn bwylllog. Gallwch daflu danteithion neu degan i'ch ci, neu symudwch eich plentyn oddi yno.
- **Deall iaith corff y ci** er mwyn i chi allu adnabod arwyddion eu bod yn teimlo'n anghyfforddus neu o dan straen.
- Pan rydych chi'n gwybod y bydd eich meddwl yn rhywle arall yn ystod adegau prysur, defnyddiwch gatiâu diogelwch i gadw plant a chŵn ar wahân. Neu ewch â'ch plentyn neu gi gyda chi.

 **Adegau sbarduno** – dysgwch i'ch plentyn i adael llonydd i'r ci pan fyddan nhw'n:

- Cysgu – does neb yn hoffi cael eu dihuno'n sydyn.



- Bwyta neu'n cael danteithion – efallai y byddan nhw'n meddwl eich bod chi'n mynd i ddwyn eu bwyd.
- Cael tegan neu rywbeth arall maen nhw'n ei hoffi'n fawr – efallai na fyddan nhw eisiau rhannu!

 **Eich plentyn yn tyfu** – wrth i'ch plentyn newid, gall y peryglon newid hefyd.

- Dysgwch y rheolau i'ch plentyn o oedran cynnar a cadwch egluro iddyn nhw wrth i'ch plentyn ddeall mwy.
- Wrth i'ch plentyn ddod yn fwy symudol, adolygwch y newidiadau sydd eu hangen, fel ychwanegu gatiâu diogelwch.
- Meddyliwch ymlaen llaw am y newidiadau ym mywyd eich teulu a'r risgiau newydd a all godi. Darllenwch ein taflen ffeithiau ar ddod â babi adref.

 **Dal yn poeni?**

- Os ydych yn poeni am y ffordd y mae eich ci gyda'ch plentyn, siaradwch â'ch milfeddyg. Byddan nhw'n gallu edrych ar iechyd eich ci ac yn gallu eich cyfeirio at arbenigwr ymddygiad anifeiliaid.
- Ewch i wefan **Cyngor Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid** i ddod o hyd i arbenigwr ymddygiad yn eich ardal chi.